# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Ionawr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 253(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth:**

**Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad gan Mondi ynghylch colledion swyddi ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint?

**Russell George (Sir Drefaldwyn)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i adroddiadau ynghylch dyfodol Flybe a'i effaith ar faes awyr Caerdydd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru

(60 munud)

**NDM7226** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2019.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2020.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Addysgu Hanes Cymru

(60 munud)

**NDM7228** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar addysgu hanes Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2020.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Trais a Chamdriniaeth Rywiol

(60 munud)

**NDM7229** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi’r cynnydd mewn adroddiadau o drais rhywiol yng Nghymru a Lloegr.

2. Yn mynegi cydymdeimlad ac undod â goroeswyr trais a chamdriniaeth rywiol.

3. Yn gresynu at fethiant parhaus nifer o systemau cyfiawnder troseddol ledled y byd i gynnig cefnogaeth i oroeswyr, a gresynu’r ffaith nad yw goroeswyr, yn rhy aml, yn cael eu credu ac yn cael eu gorfodi i ail-fyw profiadau erchyll drwy

brosesau llys dwys, a diwylliannau mewn heddluoedd nad ydynt yn credu dioddefwyr.

4. Yn nodi bod erlyniadau ar gyfer trais rhywiol ac euogfarnau yng Nghymru a Lloegr ar eu lefelau isaf ers degawd, a bod gwella cyfraddau euogfarnu'n rhan hanfodol o strategaeth atal trais.

5. Yn nodi bod comisiwn Thomas wedi dadlau mai dim ond datganoli deddfwriaethol llawn, ar y cyd â phwerau gweithredol, fydd yn goresgyn rhwystrau'r setliad datganoli presennol o ran mynd i'r afael â diffyg cyfiawnder ac atebolrwydd y status quo.

6. Yn galw i gefnogaeth a gwasanaethau ymosodiad rhywiol fod ar gael a chael eu hariannu'n ddigonol, ac i lysoedd gael eu haddasu fel y bydd dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn, nid eu dychryn, wrth roi tystiolaeth.

7. Yn galw i ddatganoli cyfiawnder fel y gallwn fynd i'r afael â'r cyfraddau euogfarnu isel hyn drwy fabwysiadu arfer gorau rhyngwladol ar gynyddu cyfraddau euogfarnu ac atal camdriniaeth a thrais rhywiol.

Adroddiad Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru – Hydref 2019

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Dileu pwyntiau 5 a 7.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 –** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Nodi adroddiad Comisiwn Thomas ac yn diolch i'r Comisiwn am ei waith ar y posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder gan edrych ymlaen at y ddadl a addawyd yn ystod amser y llywodraeth ar ganfyddiadau'r Comisiwn ac unrhyw effaith gaiff y rhain ar gynyddu cyfraddau euogfarnu ac atal camdriniaeth a thrais rhywiol.

**Gwelliant 4 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod adroddiad Arolwg Trais Rhywiol 2019 Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM wedi canfod bod nifer yr achosion a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth i gael

eu penderfynu gan yr heddlu a nifer yr achosion a erlynwyd gan y Gwasanaeth wedi disgyn, er gwaethaf bod adroddiadau o drais a gaiff eu cyflwyno i'r heddlu bron wedi dyblu.

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM - Arolwg Trais Rhywiol 2019 - Rhagfyr 2019

**Gwelliant 5 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi datganiad Llywodraeth y DU bod y canfyddiadau yn peri pryder mawr a'i bod wedi ymrwymo i adfer hyder yn y system gyfiawnder a darparu gwell cefnogaeth i ddioddefwyr.

Adroddiad HMCPSI ar gyfraddau euogfarnau trais rhywiol - 17 Rhagfyr 2019

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7227 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Dathlu Arwyr Cymru: Cyfraniad arwyr Cymru i broffil rhyngwladol ein gwlad.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2020